# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 10 RHAGFYR 2021

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cadeirydd), Louise Emery (Cyngor Conwy), Billy Mullin (Cyngor Sir y Fflint), Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych) a Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion –Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Sheryl Le Bon Jones (Uwch Swyddog Gweithredol), Jane Richardson (Cadeirydd y Grŵp Gweithredol), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol), Kirrie Roberts (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), Bryn Richards (Llyowdraeth Cymru), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cynghorydd Charlie McCoubrey, Cynghorydd Ian B Roberts, Yana Williams (Coleg Cambria), Iwan Davies (Cyngor Conwy) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol gan Maria Hinfelaar, Prifysgol Glyndwr ac Askar Sheibani fel aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndwr, a'r Athro Iwan Davies, Prifysgol Bangor, ar gyfer eitem 9 gan fod prosiectau mewn perthynas â Phrifysgol Bangor a Glyndwr yn cael eu trafod, nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod.

Ar gyfer eitem 10 derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol gan yr Athro Iwan Davies fel cynrychiolydd Prifysgol Bangor, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

## 5. FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTH GOGLEDD CYMRU - DRAFFT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio)

**PENDERFYNWYD**

**Argymell y drafft 'Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru' i'w fabwysiadau gan bob awdurdod lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Sefydlodd Cynllun Gweithredu Economaidd, Llywodraeth Cymru'r sylfaen ar gyfer gweithio rhanbarthol, gan gynnwys ymrwymiad i ddarparu llais rhanbarthol cryfach trwy fodel datblygu economaidd â ffocws rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu timau rhanbarthol a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (REFs).

Mae REFs wedi'u bwriadu fel cyfrwng i helpu i hyrwyddo cynllunio a darpariaeth ranbarthol gydweithredol ymhlith partneriaid sector cyhoeddus, preifat a trydydd. Bydd y cyflawni yn canolbwyntio ar un weledigaeth a rennir ar gyfer pob rhanbarth a'i chefnogi gan gyfres o flaenoriaethau ac egwyddorion rhanbarthol.

Bydd datblygu REFs yn allweddol wrth lywio a dylanwadu ar gyflawni blaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Cynllun Gweithredu Economaidd, Llywodraeth Cymru, wedi sefydlu sylfaen ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, sydd yn cynnwys sefydlu timau rhanbarthol a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Eglurwyd fod datblygu'r fframweithiau yn rhan hanfodol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Fodel Datblygu Economaidd. Eglurwyd wrth ddatblygu'r fframweithiau fod angen ystyried yr adferiad Covid-19 ynghyd â dyheadau hir dymor y rhanbarth.

Mynegwyd fod y fframweithiau yn helpu i hyrwyddo cynllunio a darpariaeth ranbarthol gydweithredol ymhlith partneriaid yn y sector gyhoeddus, preifat a trydydd sector. Eglurwyd bydd y fframwaith yn canolbwyntio ar un weledigaeth drwy gyfres o flaenoriaethau ac egwyddorion rhanbarthol. Pwysleisiwyd fod y fframweithiau yn allweddol wrth lywio a dylanwadu ar gyflawni blaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cymru.

Mynegwyd fod cyfnod ymgysylltu wedi ei gynnal ar y fframweithiau ac fod y tîm wedi targedu ystod o randdeiliad rhanbarthol i gyd-ddylunio'r dull hwn o ddatblygu economaidd. Nodwyd y blaenoriaethu o dan brif themâu: Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol, Economi Profiad a Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel. Eglurwyd fod y blaenoriaethau yn rhai hyblyg a fydd yn caniatáu i'r rhanbarth addasu dros y ugain mlynedd nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd tuag at pwy oedd y ddogfen hon wedi ei hanelu. Nodwyd fod y ddogfen wedi ei chreu ar gyfer y rhanbarth er mwyn cael pwrpas clir ac i amlygu blaenoriaethau. Mynegwyd y bydd y ddogfen bartneriaethol hon yn ganllaw ar gyfer derbyn arian gan Lywodraeth Cymru.
- Mynegwyd gyda blaenoriaethau i'w gweld yn y Cytundeb Twf, Cydbwyllgorau

Corfforedig ac yn y Fframweithiau yma yn ogystal holwyd sut y bydd modd cadw'r rhain i gyd i gyd-fynd a'i gilydd. Eglurwyd fod y ddogfen yn un cyffredinol o ran blaenoriaethau, ac o ganlyniad yn dangos yn glir fod y Bwrdd Uchelgais yn llwyddiannus yn gweithredu yn erbyn y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Mynegwyd y bydd y Fframweithiau yn cyd-fynd a blaenoriaethu sydd i'w gweld yn barod ond ei fod yn rhoi fframwaith hir dymor i'r rhanbarth.

- Nodwyd fod y penderfyniad yn nodi yr angen i Awdurdodau Lleol dderbyn y fframwaith – holwyd os y bydd angen i'r partneriaid wneud yn ogystal. Eglurwyd fod rhanddeiliad wedi cael cyfle i gyfrannu at y fframwaith ac y dylai gael ei fabwysiadu gan y partneriaid yn ogystal, os yn bosib, i gynorthwyo i adeiladu economi gryfach yn y gogledd.
- Holwyd oes modd i'r Fframwaith gael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais yn hytrach nac yn holl gynghorau gan fod y partneriaid ac yr awdurdodau i'w gweld yn rhan o'r cyfarfod. Mynegwyd ymdeimlad fod mynd yn ôl a'i drafod yn lleol yn arafu'r broses. Nododd y Swyddog Monitro nad oedd mabwysiadu'r Fframwaith ar draws yr holl bartneriaid o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd Uchelgais ac felly bydd angen mynd yn ôl a'i benderfynu o fewn yr Awdurdodau Lleol.

## 6. Y STRATEGAETH FUDDSODDI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio).

### PENDERFYNIAD

**Nodwyd y diweddariad ar y gwaith o ddatblygu strategaeth fuddsoddi.**

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bob blwyddyn, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cychwyn Adolygiad Porth annibynnol fel rhan o'i broses sicrwydd a llywodraethu. Amlygodd Adolygiad Porth y Portffolio ym mis Awst 2021 gradd hyder cyflawni Ambr/Gwyrdd sydd yn cydnabod bod cyflawni'n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol. Fodd bynnag, nodwyd yr angen rhoi sylw parhau i sicrhau nad yw risgiau yn troi mewn i faterion mawr a fyddai'n fygythiad.

Un o argymhellion y panel adolygu oedd y dylid datblygu a mabwysiadu strategaeth ar lefel Portffolio i ddenu a sicrhau buddsoddiad sector breifat ac arall.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nod pob blwyddyn fod y Cynllun Twf yn cychwyn Adolygiad Porth annibynnol fel rhan o broses sicrwydd a llywodraethu. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Awst 2021, a cyflawnwyd gradd hyder cyflawni o Ambr/Gwyrdd a oedd yn cydnabod fod cyflawni'n llwyddiannus yn edrych yn debygol. Eglurwyd fod y panel adolygu yn argymell y dylid datblygu a mabwysiadu strategaeth ar lefel Portffolio er mwyn denu a sicrhau buddsoddiad sector breifat ac arall.

Eglurwyd fod y Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni prosiectau ar draws pum rhaglen a rhagwelir y bydd cyfanswm gwariant cyfalaf hyd at £1.1biliwn. O'r cyfanswm hwn, ategwyd fod £240miliwn wedi'i ymrwymo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a nodwyd fod disgwyliad i £179.2miliwn o gyfalaf o ffynonellau sector gyhoeddus eraill a £722miliwn yn cael ei ymrwymo gan y sector breifat. Mynegwyd fod y buddsoddiad yn cyfrannu at dwf economaidd y rhanbarth dros dymor o ddeg i bymtheg mlynedd ac fod y buddsoddiad wedi'i dargedu at y sectorau sy'n bwysig yn strategol drwy bum rhaglen portffolio.

Yn unol ag argymhellion y panel adolygu nodwyd fod drafft cychwynnol o’r Strategaeth wedi ei gyflwyno i’r Bwrdd Portffolio ar 26 Tachwedd i’w ystyried. Gofynnodd y Bwrdd Portffolio am amser ychwanegol i ystyried a rhoi mewnbwn i’r ddogfen. Nodwyd fod y strategaeth yn nodi saith amcan allweddol i fynd i’r afael â’i nodau’n effeithiol ynghyd ag annog cydweithio rhanbarthol a cheisio adnabod cyfleoedd a bygythiadau posib sy’n gysylltiedig a sicrhau buddsoddiad. Ategwyd y bydd cyflawnir amcanion yn llwyddiannus yn sicrhau ymagwedd gydlynol i sicrhau’r buddsoddiad sydd ei angen.

Tywyswyd drwy’r saith amcan o fewn y Strategaeth Buddsoddi. Eglurwyd y bydd cydweithio parhaus gyda’r rhan ddeiliaid rhanbarthol i adeiladu yr ymagwedd sydd wedi ei amlinellu a nodwyd y bydd diweddariad yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y Strategaeth ar yr 14 Rhagfyr 2021.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Mynegwyd pryder fod yr elfen leol ar goll o’r strategaeth ac fod yr elfen o drafodaeth leol yn cael ei dynnu o’r rhanbarth. Eglurwyd nad oes bwriad i’r ddogfen deimlo fod yr ymdeimlad lleol yn cael ei golli gan nodi fod y ddogfen yn llawn yn datgelu llawer yn fwy. Mynegwyd pwysigrwydd o edrych yn lleol am fuddsoddiad ac i ymestyn ymhellach i ddenu buddsoddiad pellach. Nodwyd mai bwriad y strategaeth oedd i osod amcanion pendant ar waith i hwyluso cyfleodd buddsoddi yn y rhanbarth ond i sicrhau fod yr ardal yn cael y buddsoddwyr cywir yn ogystal. Eglurwyd ei bod yn bwysig deall sut mae pob awdurdod eisiau denu’r buddsoddwyr ac ei blethu i mewn i’r strategaeth.
- Mynegwyd yr angen i gael busnesau i fuddsoddi ac er mwyn gnwued hyn y bydd angen gweithio gyda’i gilydd ac i fod yn ardal groesawgar.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o’r fath heb ei gyhoeddi. Mae’r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r cyrff a’r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a’r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.**

## 8. RHEOLI NEWID - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd y diweddariad ar y ceisiadau i newid.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020, fe gytunwyd ar y Cytundeb Twf ar gyfer Cynllun Twf y Gogledd. Nodwyd fod gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newid posib i sgôp y Cynllun Twf a’r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny’n berthnasol ei hystyried gan y Bwrdd.

Caiff ceisiadau i newid eu hasesu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'u hystyried gan y Bwrdd Portffolio cyn gwneud unrhyw argymhelliad i'r Bwrdd.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 9. PROSIECT CANOLFAN PROSESU SIGNALAU DIGIDOL - ACHOS BUSNES LLAWN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau) a Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol, ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ac ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cyflawni'r prosiect, yn ddarostyngedig ar i Brifysgol Bangor yn rhoi sylw i'r materion sy'n weddill fel y nodir yn adran 7 o'r adroddiad ac yn sicrhau'r holl gymeradwyaeth mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

Nodwyd y bydd gwedd 2 a 3 y prosiect yn ddarostyngedig i Brifysgol Bangor yn cynhyrchu Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer pob gwedd gwario.

Dirprwywyd y Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i awdurdod i gymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes dilynol ar gyfer gwedd 2 a 3 y prosiect lle mae gwariant a buddion yn unol â'r Achos Busnes Llawn a gyflwynwyd.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**